

BTPA British Transport Police Authority

BRITISH TRANSPORT POLICE

# CYNLLUNIAU PLISMONA HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

## 2023-26

# CYNNWYS


Rhagair y Cadeirydd 3

Cyflwyniad y Prif Gwnstabl 4

Ein Hamcanion Strategol 2022-27 6

Ymrwymiadau Rhanbarth C – Cymru 7

Cysylltiadau Rhanbarthol 11


A E Yn gwasanaethu pob maes

**Rhanbarth E**
Galluoedd arbenigol

**Rhanbarth D**
Yr Alban

**Rhanbarth C**
Pennine
Cymru
Canolbarth Lloegr
Gorllewin

**Rhanbarth B**
Gogledd
De
TFL

**Rhanbarth A**
Cymorth Gweithredol Canolog



# RHAGAIR Y CADEIRYDD

***Hoffwn ddiolch i holl staff a swyddogion Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig am eu gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Cynlluniau Plismona hyn yn dyst i'r gwaith da hwnnw, a'n bwriad i fod hyd yn oed yn well wrth symud ymlaen.***



**Ron Barclay-Smith**
Cadeirydd

**E-bost**
Ron.Barclay-Smith@btp.police.uk

**Dilynwch**
@BTPAuthority

**Y llynedd gwnaethom y penderfyniad i symud i gynllun plismona tair blynedd treigl, ar gyfer 2022-25. Felly, bydd yr amcanion a'r metrigau yn y ddogfen hon yn aros yr un fath i raddau helaeth â'r rhai a gyhoeddwyd yn 2022, ond rydym wedi diweddaru rhai metrigau, ffigurau adnoddau a data ariannol, yn ogystal â chynnwys testun newydd gennyf i, y Prif Gwnstabl a'r Rheolwyr Rhanbarthol.**

Byddwch hefyd yn sylwi ar dudalen newydd ynglŷn â'n hymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth. Rydym yn croesawu cynnydd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wrth ddatblygu ei strategaeth ar gyfer cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn bwriadu bod yn wrth-hiliol a bod pobl Ddu yn ymddiried ynddo yn unol â Chynllun Gweithredu Hil cenedlaethol yr Heddlu. Bydd Awdurdod yr Heddlu yn mynnu bod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn atebol, ac ar yr un pryd hefyd yn herio ei hun ar y materion hyn sy'n mynd at wraidd ymddiriedaeth, cyfreithlondeb a phlismona trwy gydsyniad.

Yn dilyn adroddiad y Farwnes Casey ar safonau ymddygiad yn yr Heddlu Metropolitanaidd, bydd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Awdurdod yn sicrhau na fydd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig / Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig y math o sefydliad a ddisgrifir gan y Farwnes Casey mewn unrhyw fodd. Fel sefydliad, byddwn yn cydweithio i sicrhau nad oes lle i ymddygiad rhywiaethol, homoffobig a hiliol yn yr Heddlu na'r Awdurdod.

Mae ein blaenoriaethau o ran Trais yn erbyn Menywod a Merched yn parhau i fod ar frig yr agenda yn y Cynllun Plismona hwn. Rydym wedi gweld adrodd am ddigwyddiadau ar y rhwydwaith yn cynyddu o 165%, a gellir cysylltu hyn ag ymdrechion Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i godi ymwybyddiaeth ac ag ymgyrchoedd fel Speak up, Interrupt, a lansio ap Railway Guardian.

Rydym yn dal i addasu i dirwedd ein diwydiant sy'n parhau i ddatblygu, sef yn benodol datblygiad Great British Railways. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'n cydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth (DfT) i sicrhau bod ystyriaethau plismona a diogelwch yn cael eu cynllunio fel rhan o'r corff rheilffyrdd newydd yn y ffordd orau bosibl. Yn y cyfamser bydd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i sicrhau bod yr Heddlu yn helpu i gadw'r rheilffordd i fynd trwy sicrhau bod lleihau tarfu yn flaenoriaeth graidd.

Yn ogystal mae'r cynllun Peilot Diogelwch a Phlismona Integredig (ISPP) wedi bod yn llwyddiant mawr ar draws y rhwydwaith. Cyflwynodd y prosiect ddull cydgysylltiedig ar gyfer diogelwch gorsafoedd ar safleoedd mawr, fel Kings Cross St Pancras a Birmingham New Street, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chanlyniadau gwell. Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig bellach yn adolygu eu canfyddiadau ac yn gweithio ar y camau nesaf ar gyfer diogelwch a phlismona integredig ar draws y rhwydwaith.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i holl staff a swyddogion Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig am eu gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae 2023 yn nodi dechrau'r drydedd flwyddyn gyda'r Prif Gwnstabl Lucy D'Orsi wrth y llyw, ac mae hi wedi gwneud gwaith gwych o lywio'r Heddlu i gyfeiriad cadarnhaol, yn enwedig ym meysydd proffesiynoldeb a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Mae'r Cynlluniau Plismona hyn yn dyst i'r gwaith da hwnnw, a'n bwriad i fod hyd yn oed yn well wrth symud ymlaen.

# CYFLWYNIAD Y PRIF GWNSTABL

*Wrth i ni edrych ymlaen at y misoedd nesaf, byddwn fel gwarcheidwaid y rheilffordd yn parhau i fod yn rhwydwaith sy'n gynyddol fywiog a phrysur – yn canolbwyntio ar eich diogelwch.*




Lucy D'Orsi QPM
Prif Gwnstabl

E-bost
lucy.dorsi@btp.police.uk

Dilynwch
@BTPChief


**Wrth i ni symud i ail flwyddyn ein cynllun plismona tair blynedd, rwy'n falch o adrodd ein bod eisoes wedi cymryd camau breision i gyflawni ein hamcanion, diolch i ymrwymiad diwyro a phroffesiynoldeb ein swyddogion heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a staff yr heddlu. Wrth i ni barhau ar y daith hon, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni perfformiad rhagorol a meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi gweithio'n ddiflino gyda'n partneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd a rhanddeiliaid ehangach i sicrhau diogelwch a diogeledd staff a theithwyr wrth i ni adfer yn dilyn y pandemig. Wrth i ni edrych ymlaen at y misoedd nesaf, **byddwn fel gwarcheidwaid y rheilffordd yn parhau i fod yn rhwydwaith sy'n gynyddol fywiog a phrysur - yn canolbwyntio ar eich diogelwch.**

Mae fy ymrwymiad i greu amgylchedd sy'n gwrthwynebu troseddau ac amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed yn parhau'n ddiysgog, wrth i'n blaenoriaethau plismona barhau i gyd-fynd â'n strategaeth. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â thrais, troseddau casineb, aflonyddu rhywiol a thrais yn erbyn menywod a merched, er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith yn ddiogel, ac yn teimlo'n ddiogel rhag y rhai sy'n dymuno gwneud niwed.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd ein cyfreithlondeb, ac ni fu meithrin ymddiriedaeth y rhai sy'n defnyddio ac yn gweithio ar y rhwydwaith rheilffyrdd erioed mor bwysig. Dyna pam yr ydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau canlyniadau plismona sy'n amddiffyn, yn cefnogi ac yn diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed sydd mewn perygl o niwed a cham-fanteisio, gan fynd i'r afael â tharfu ar wasanaethau gyda'n partneriaid yn y diwydiant i sicrhau y gall teithwyr gyrraedd adref yn ddiogel ac yn brydlon. Byddwn yn parhau'n ddygn wrth sicrhau bod gennym weithlu proffesiynol a arweinir yn dda.

Wrth inni barhau i blismona amgylchedd gweithredu sy'n newid yn sgil y diwygiadau i'r rheilffyrdd sydd ar ddod, rwy'n gweld nifer o gyfleoedd i gryfhau diogelwch ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Rwy'n hyderus y bydd yr amcanion a nodir yn y cynllun hwn yn parhau i ddarparu plismona rheilffyrdd o'r radd flaenaf, ac rwy'n ddiolchgar i'n rhanddeiliaid a'n partneriaid am eu mewnwelediadau a'u safbwyntiau unigryw wrth i ni weithio gyda'n gilydd i gyflawni hyn.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'n holl bobl wych yn Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig am eu hymroddiad i wasanaeth cyhoeddus, wrth i ni barhau i symud ymlaen eleni fel Heddlu sy'n llawn mynd.






# AMCANION STRATEGOL

- Atal troseddau a diogelu i **leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael niwed ar y rheilffyrdd**
- Targedu ein hymdrechion i **sicrhau bod nifer llai yn dioddef y troseddau mwyaf difrifol**
- Arloesi a chydweithio â'n partneriaid i **leihau tarfu**
- Meithrin **ymddiriedaeth a hyder** teithwyr a staff rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'n gilydd
- **Sicrhau gwerth am arian** trwy fanteisio ar dechnoleg, gan addasu i gwrdd â'r dyfodol
- Adeiladu Heddlu **modern a chynhwysol** lle mae gan ein pobl gyfarpar da, maent yn cael eu harwain yn dda, yn derbyn gofal da ac yn adlewyrchu'r gorau o'n cymunedau

# Rhanbarth C **Cymru**



**Uwch-arolygydd Andy Morgan**
Comander Is-ranbarthol Cymru
andrew.morgan@btp.police.uk **Dilynwch** @BTPWales

## Creu amgylchedd sy'n elyniaethus i derfysgaeth trwy strategaeth CONTEST

- Cynnal galluoedd gweithredol arbenigol sy'n cynnig dull o liniaru'r methodolegau ymosod credadwy a nodwyd. Datblygu galluoedd lle nad ydynt yn bodoli eisoes.
- Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fygythiad terfysgaeth ymhlith swyddogion a staff Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, gan gynnwys y rôl y maent yn ei chwarae wrth ei rwystro.
- Cynyddu ymwybyddiaeth y diwydiant rheilffyrdd o fygythiad terfysgaeth a sut y gallant ei rwystro.
- Cynnal gallu rheoli sy'n galluogi gorchymyn a rheoli effeithiol o ymateb Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i ymosodiad gan derfysgwyr
- Ymgymryd â rhaglen ymarfer sy'n profi cynlluniau ymateb, rheolwyr ac ymatebwyr yn drylwyr yn erbyn y risg uchaf a'r bygythiadau mwyaf credadwy o fewn Asesiad Strategol Gwrthderfysgaeth o Fygythiad a Risg
- Datblygu canllawiau a rhoi hyfforddiant ar waith yn eu cylch a pharatoi cynlluniau ar gyfer y risgiau mwyaf a'r bygythiadau mwyaf credadwy yn yr Asesiad Strategol Gwrthderfysgaeth o Fygythiad a Risg

## Sicrhau y gall teithwyr a staff weithio a theithio heb gael eu bygwth gan drais

### TRAIS AC YMDDYGIAD YMOSODOL YN ERBYN TEITHWYR

- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer:
  - Trais difrifol
  - Troseddau sy'n cynnwys arfau
  - Lladrad
  - Trefn Gyhoeddus
- Allbwn tasg Swyddog ar gyfer troseddau difrifol a throseddau'n defnyddio arfau:
  - Stopio a Chwilio
  - Derbyn cudd-wybodaeth
  - Arfau a atafaelwyd
  - Cod Ymarfer i Ddioddefwyr
  - Cydymffurfedd

### TRAIS AC YMDDYGIAD YMOSODOL YN ERBYN STAFF RHEILFFYRDD

- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer trais yn erbyn unigolyn a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a gyflawnir yn erbyn staff rheilffyrdd
- Mathau o ganlyniadau ar gyfer troseddau yn erbyn staff rheilffyrdd
- Trwy gydweithio â gweithredwyr, gwella'r ganran o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer staff rheilffyrdd
- Cydymffurfio â Chod Ymarfer i Ddioddefwyr

# Rhanbarth C
# Cymru

## Mynd i'r afael â'r troseddau a'r digwyddiadau hynny sy'n effeithio fwyaf ar hyder y rhai sy'n gweithio ac yn teithio

- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau cyffredin mewn lleoliadau allweddol y cytunwyd arnynt
- Allbwn gweithgaredd swyddogion mewn lleoliadau allweddol y cytunwyd arnynt (ar y trên ac oddi arno)
- Nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Lefelau bodlonrwydd fel y'u pennir gan yr Arolwg Dioddefwyr Troseddau
- Amseroedd ymateb i ddigwyddiad, wedi'u dadansoddi yn ôl categori (Â Blaenoriaeth / Ar unwaith)
- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau cysylltiedig â phêl-droed

**AMCAN RHANBARTHOL:**

- **Lleoliadau allweddol y cytunwyd arnynt – I'w penderfynu gyda'r Rhanbarthau yn y flwyddyn berfformiad newydd**

## Lleihau tarfu ar y rhwydwaith trwy gydweithio

- Nifer yr achosion o darfu a'r prif funudau mewn lleoliadau allweddol wedi'u dadansoddi yn ôl categori:
  - Dwyn ceblau
  - Fandaliaeth/lladrad
  - Tresmasu
  - Meddwdod/anhrefn/tresmasu
  - Marwolaethau/anafiadau yn ymwneud â thrên
- Amser adfer y gwasanaeth yn dilyn marwolaeth
- Nifer staff Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol a Seiciatreg a grëwyd ar gyfer mannau problemus Pobl mewn Sefyllfaoedd Ansicr

## Amddiffyn, cefnogi a diogelu pobl agored i niwed a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-fanteisio a'u niweidio

- Adroddiadau pryderon am unigolion agored i niwed yn ôl categori
- Nifer yr ymgyflwynwyr mynych ac ymgyflwynwyr aml
- Data Llinellau Cyffuriau yn ôl categori canlyniad
- Nifer yr ymyriadau achub bywyd
- Defnyddio pwerau i amddiffyn pobl mewn argyfwng (adran 136 Deddf Iechyd Meddwl)

# Rhanbarth C **Cymru**

## Mynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, troseddau casineb ac aflonyddu rhywiol

- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau treisgar yn erbyn menywod a merched (gan gynnwys dadansoddiad o ymgysylltu â dioddefwyr)
- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer digwyddiadau yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol (mesur ar gyfer y cyhoedd a staff rheilffyrdd)
- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau rhyw (gan gynnwys dadansoddiad o ymgysylltu â dioddefwyr)
- Nifer y troseddwyr hysbys sy’n cael eu monitro’n weithredol
- Nifer y ceisiadau am Orchmynion Atal Niwed Rhywiol, Gorchmynion Ymddygiad Troseddol a gorchmynion atal ehangach.
- Canran cydymffurfedd â gorchmynion gwahardd ar gyfer troseddwyr a reolir
- Nifer a chanran y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau casineb (wedi’u dadansoddi fesul ffactor)
- Allbwn tasg swyddog ar gyfer troseddau rhywiol a throseddau casineb
- Lefelau bodlonrwydd fel y’u pennir gan yr Arolwg Dioddefwyr Troseddau
- Cefnogaeth i ddioddefwyr pan fo erlyniad







# Cysylltiadau Rhanbarthol



# DIVISIONAL CONTACTS

## Rhanbarth B



**Prif Uwch-arolygydd Chris Casey**
Comander Rhanbarthol, Rhanbarth B
**E-bost** christopher.casey@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPCasey



**Uwch-arolygydd dros dro Rachel Griffiths**
Comander Is-ranbarthol Gogledd Lloegr
**E-bost** rachel.griffiths@btp.police.uk



**Uwch-arolygydd Darren Malpas**
Comander Is-ranbarthol De Lloegr
**E-bost** darren.malpas@btp.police.uk



**Uwch-arolygydd dros dro Lisa Garrett**
Comander Is-ranbarthol Canolbarth Lloegr
**E-bost** lisa.garrett@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPLGarrett

## Rhanbarth C



**Prif Uwch-arolygydd Sandra England**
Comander Rhanbarthol, Rhanbarth C
**E-bost** sandra.england@btp.police.uk



**Uwch-arolygydd Mark Cleland**
Comander Is-ranbarthol Gorllewin Lloegr
**E-bost** mark.cleland@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPCleland



**Uwch-arolygydd Sue Peters**
Comander Is-ranbarthol Canolbarth Lloegr
**E-bost** sue.peters@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPPeters



**Uwch-arolygydd Lorna McEwan**
Comander Is-ranbarthol Pennine
**E-bost** lorna.mcewan@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPMcEwan



**Uwch-arolygydd Andy Morgan**
Comander Is-ranbarthol Cymru
**E-bost** andrew.morgan@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPWales

## Rhanbarth D



**Prif Uwch-arolygydd Gill Murray**
Comander Rhanbarthol, Rhanbarth D
**E-bost** gillian.murray@btp.police.uk
**Dilynwch** @BTPMurray

*Defnyddiwch y map hwn i ddod o hyd i'r cyswllt ar gyfer eich ardal.*



BTPA British Transport Police Authority

BRITISH TRANSPORT POLICE

# Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

## Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**Ron Barclay-Smith**
Cadeirydd
Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**Rhif ffôn** 07900 394397
**E-bost** btpa-enquiries@btp.police.uk

Pencadlys, 25 Camden Road, Llundain, NW1 9LN

**@BTPAuthority**

**www.btpa.police.uk**

## Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**Jennifer Crowther**
Rheolwr Cynllunio Strategol
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

**Rhif ffôn** 020 7830 8829
**E-bost** jennifer.crowther@btp.police.uk

Pencadlys, 25 Camden Road, Llundain, NW1 9LN

**@BTP**

**www.btp.police.uk**